# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 3 Tachwedd 2011** |
| Amser: | **10: – 11:15** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_03_11_2011&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Christine Chapman (Cadeirydd)**<br>**Angela Burns**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Keith Davies**<br>**Suzy Davies**<br>**Julie Morgan**<br>**Lynne Neagle**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Simon Thomas** |
| Tystion: | **Lesley Griffiths, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Professor Ivor G Chestnutt, Professor and Hon.**<br>**Consultant in Dental Public Health, Cardiff** University **School of Dentistry**<br>**Andrew Powell-Chandler, Head of Dental Policy** |
| Staff y Pwyllgor: | **Claire Morris (Clerc)**<br>**Meriel Singleton (Dirprwy Glerc)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2. Ymchwiliad i Iechyd y Geg mewn Plant yng Nghymru: Craffu ar waith y Gweinidog

2.1 Croesawodd y Cadeirydd y Gweinidog a'i swyddogion i'r cyfarfod. Bu'r Aelodau'n holi'r Gweinidog.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth am:

- Werthuso'r rhaglen Cynllun Gwên
- Nifer y plant o fewn ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol sydd wedi cofrestru â gwasanaeth deintyddol cymunedol y tu allan i'r Cynllun Gwên
- Nifer y plant sydd wedi'u cynnwys yn y cwintel isaf ac sy'n cael eu targedu er mwyn codi'r lefel i'r cwintel canol
- Manylion, fesul awdurdod lleol, am yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen ond sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ardaloedd a dargedwyd
- Nifer yr ymwelwyr iechyd sy'n ymwneud â'r broses o weithredu'r rhaglen Cynllun Gwên ar gyfer plant 0-3 oed, a sut y bydd cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu
- Y gwerthusiad a gynhaliwyd gan Weinidogion blaenorol Cymru i'r posibiliadau o fflworideiddio dŵr, a'r dystiolaeth ategol.

## 3. Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor y papur a ganlyn:

- Cofnodion y cyfarfod blaenorol

### Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.